Cyllid y Wlad

Nodiadau ar HUNAN-GYFLOGAETH

CYNNWYS

Cwblhau'r Tudalennau Hunan-gyflogaeth	SEN1
• Darparu manylion incwm a threuliau	SEN2
• Ffigurau dros dro	SEN3
• Amcangyfrifon eraill (gan gynnwys prisiadau)	SEN3
Manylion busnes	SEN3
• Eich cyfnod sail ar gyfer 1999-2000	SEN3
Incwm a threuliau - trosiant blynyddol o dan £15,000	SEN4
Incwm a threuliau - trosiant blynyddol o £15,000 neu fwy	SEN4
• Treth Ar Werth	SEN4
• Incwm gwerthiant/busnes (trosiant)	SEN4
• Treuliau busnes	SEN4
• Incwm/elw arall	SEN6
• Gwybodaeth ychwanegol	SEN6
Tabl o dreuliau busnes	SEN5
Addasiadau treth i elw neu golled net	SEN6
Lwfansau cyfalaf a thaliadau mantoli	SEN6
Addasiadau er mwyn pennu elw neu golled trethadwy	SEN8
Cyfraniadau Yswiriant Gwladol	SEN9
Cyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 4	SEN9
Is-gontractwyr yn y diwydiant adeiladu	SEN10
Crynodeb o'r fantolen	SEN10
Treth wedi'i didynnu o incwm masnachu	SEN10
Masnachau arbennig	SEN10
Geirfa	SEN11

TAFLENNI CYMORTH A THAFLENNI

Mae Taflenni Cymorth a thaflenni sy'n rhoi gwybodaeth fanylach am rai rheolau treth ar gyfer hunan-gyflogaeth ar gael o'r Llinell Archebu.

- *SA BK 3: Self Assessment - a guide for keeping records for the self-employed*
- *IR220: More than one business*
- *IR222: How to calculate your taxable profits*
- *IR223: Rent a Room for traders*
- *IR224: Farmers and market gardeners*
- *IR227: Losses*
- *IR229: Information from your accounts*
- *IR231: Doctors' expenses*
- *IR232: Farm stock valuation*
- *IR233: The 'true and fair view' for professions and the 'adjustment' on withdrawal of cash basis*

Cwblhau'r Tudalennau Hunan-gyflogaeth

Mae'n rhaid i chi gwblhau'r Tudalennau Hunan-gyflogaeth os gwnaethoch, ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn dreth 1999-2000, gyflawni masnach, proffesiwn neu alwedigaeth fel person hunan-gyflogedig yn y DG neu dramor. Os oeddech yn Enw yn Lloyd's, cwblhewch y Tudalennau Tanysgrifenwyr Lloyd's yn lle hynny. Os oeddech yn aelod o bartneriaeth, cwblhewch y Tudalennau Partneriaeth yn lle hynny.

Dylech gael y deunydd sydd ei angen arnoch i gwblhau'r Tudalennau Hunan-gyflogaeth sef:

- eich cyfrifon busnes sy'n cwmpasu eich cyfnod sail ar gyfer y flwyddyn dreth 1999-2000 (eglurir y cyfnod sail ar dudalen SEN3)
- eich llyfrau a'ch cofnodion, os nad oes gennych gyfrifon.

Dylech gadw cofnodion o'ch holl drafodion busnes. Mae'n rhaid i chi gadw'r rhain tan o leiaf 31 Ionawr 2006 rhag ofn y bydd eich Swyddfa Cyllid y Wlad yn gofyn am eu gweld. Mae mwy o wybodaeth yn Llyfryn *SA/KB 3*.

Os ydych wedi bod mewn busnes ers rhai blynyddoedd ac os mai'r un dyddiad â llynedd yw'ch dyddiad cyfrifo yna eich cyfnod sail fydd y cyfnod cyfrifo sy'n dod i ben yn y flwyddyn hyd at 5 Ebrill 2000. Dylech ddefnyddio'r wybodaeth o'r cyfnod cyfrifo hwn i gwblhau'r Tudalennau Hunan-gyflogaeth.

Os ydych newydd ddechrau mewn busnes, gallwch ddewis unrhyw ddyddiad cyfleus i lunio'ch cyfrifon, ond efallai y gwelwch fod defnyddio 5 Ebrill yn gwneud eich cyfrifiadau'n haws.

Efallai y bydd yn rhaid i chi gwblhau mwy nag un set o Dudalennau Hunan-gyflogaeth os yw'r **naill neu'r llall** o'r amgylchiadau canlynol yn gymwys:

- nid oes gennych un set o gyfrifon ar gyfer y cyfnod a elwir eich cyfnod sail ar gyfer 1999-2000. Gallai hyn ddigwydd os dechreuodd eich busnes neu os orffennodd eich busnes yn ddiweddar neu os ydych wedi newid eich dyddiad cyfrifo. Gweler y nodiadau ar dudalennau SEN2 ac SEN3 sy'n esbonio sut i weithio allan eich cyfnod sail a'r wybodaeth am gyfrifon y mae'n rhaid i chi ei darparu, **neu**
- os cawsoch fwy nag un busnes - mae'n rhaid i chi gwblhau Tudalennau Hunan-gyflogaeth ar wahân ar gyfer pob un. Gofynnwch i'r Llinell Archebu am *Daflen Gymorth IR220: More than one business.* Mae'n cynnwys taflen waith i ymdrin â'r rheolau arbennig ar gyfer Cyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 4 yn y sefyllfa hon.

Os oes gennych un set o gyfrifon sy'n cwmpasu mwy nag un busnes, dylech drosglwyddo'r ffigurau i un set o Dudalennau Hunan-gyflogaeth. Yna didynnwch yr incwm a hepgorwch y treuliau sy'n gysylltiedig ag unrhyw fusnes heblaw eich prif fusnes, a'i gynnwys mewn set ar wahân o Dudalennau Hunan-gyflogaeth ar gyfer pob un o'ch busnesau eraill.

Dim ond manylion sy'n berthnasol i'r hunan-gyflogaeth honno y dylech eu cynnwys yn y Tudalennau Hunan-gyflogaeth. Dylai incwm arall gael ei nodi yn rhannau priodol eich Ffurflen Dreth. Er enghraifft, nodwch:

- incwm partneriaeth yn y Tudalennau Partneriaeth ond gweler y nodyn ar dudalen SEN3 ynglŷn â newid rhwng hunan-gyflogaeth a phartneriaeth
- incwm a enillwyd fel gweithiwr neu gyfarwyddwr cwmni yn y Tudalennau Cyflogaeth
- difidendau o gwmnïau ym mlychau 10.15 i 10.17 ar dudalen 3 eich Ffurflen Dreth.

Os ydych yn ansicr a yw eich gweithgareddau'n gyfystyr â masnach, proffesiwn neu alwedigaeth, gofynnwch i'ch Swyddfa Dreth neu ymgynghorydd treth am gyngor.

Dylech gysylltu â'ch Swyddfa Cyllid y Wlad (neu'r Llinell Gymorth pan fydd y swyddfa ar gau) am gyngor ar gwblhau eich Ffurflen Dreth, os oeddech yn adeiladwr a dywedwyd wrthych gan y person (neu'r busnes) yr oeddech yn gweithio iddo:

- nad oeddech bellach i gael eich trin fel person hunan-gyflogedig ar gyfer y contract arbennig hwnnw; **a**
- bod eich cyflog ers hynny wedi dioddef didyniadau treth TWE.

parhad drosodd

Darllenwch y nodiadau ar dudalen SEN10 cyn cwblhau'r Tudalennau Hunan-gyflogaeth os ydych yn awdur neu'n artist, **neu'n** ffermwr neu'n arddwr masnachol, **neu'n** ofalwr maeth neu'n ofalwr oedolion.

Os yw eich masnach yn golygu darparu llety wedi'i ddodrefnu yn eich unig neu eich prif gartref, gall Rhentu Ystafell fod yn gymwys. Gofynnwch i'r Llinell Archebu am *Daflen Gymorth IR223: Rent a Room for traders.*

Os oes gennych ddyledion masnachu o drafodion tramor na ellir eu talu neu eu dwyn i'r DG oherwydd cyfyngiadau rheoli cyfnewid neu brinder arian tramor yn y wlad dramor, gofynnwch i'ch Swyddfa Cyllid y Wlad neu ymgynghorydd treth am Gonsesiwn Statudol Ychwanegol B38.

Cyn i chi ddechrau

Rydych yn talu treth ar gyfer 1999-2000 ar eich holl elw busnes (gweler tudalen SEN8 os gwnaethoch golled) ar gyfer y cyfnod sail.

Eich elw busnes ar gyfer pob busnes yw'r gwahaniaeth rhwng:

- eich trosiant, derbynebion busnes eraill, taliadau mantoli a gwerth y nwyddau a gymerwyd at ddefnydd personol, **a**
- treuliau busnes caniataol (gan gynnwys lwfansau cyfalaf).

Bydd y Tudalennau Hunan-gyflogaeth yn eich helpu i weithio allan eich elw busnes trethadwy a bydd yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnaf i brosesu eich Ffurflen Dreth.

Ar gyfer pob busnes mae'n rhaid i chi:

- ddarparu manylion busnes ym mlychau 3.1 i 3.10
- rhoi manylion incwm a threuliau ym mlychau 3.11 i 3.13 os yw eich trosiant blynyddol o dan £15,000, neu ym mlychau 3.14 i 3.60 os yw eich trosiant blynyddol yn £15,000 neu fwy. Cwblhewch flychau 3.61 i 3.70 os cynhwysir lwfansau cyfalaf a thaliadau mantoli ym mlychau 3.12 a 3.11 neu 3.57 a 3.55.
- gweithio allan eich elw trethadwy ar Dudalen SE3, gan ddefnyddio blychau 3.71 i 3.88
- cwblhau blychau 3.89 i 3.92, a blwch 3.120 fel y bo'n briodol
- os oes gennych fantolen, darparu gwybodaeth am eich asedion neu rwymedigaethau busnes ym mlychau 3.93 i 3.109.

Gweithiwch drwy'r camau canlynol ar gyfer pob busnes:

Cam 1 Gweithiwch allan y cyfnod sail ar gyfer eich busnes drwy ddefnyddio'r nodiadau ar dudalen SEN3 neu *Taflen Gymorth IR222: How to calculate your taxable profits.*

Cam 2 Gweithiwch allan faint o 'gyfrifon' sy'n disgyn o fewn y cyfnod sail hwnnw.

Cam 3 Cadarnhewch a wnaethoch ddarparu manylion unrhyw un o'r cyfrifon hyn ym mlychau 3.11 i 3.60 a blychau 3.93 i 3.109 ar Ffurflen Dreth y llynedd. Os felly, nid oes angen i chi ddarparu'r un wybodaeth eto. Dim ond os yw'r manylion sy'n ymwneud â'r holl gyfrifon hyn eisoes wedi cael eu cynnwys ar Ffurflen Dreth y llynedd y bydd angen i chi dicio blwch 3.5A.

Cam 4 **Os mai dim ond un set o gyfrifon ar gyfer y cyfnod sail sydd gennych**, cwblhewch un set o Dudalennau Hunan-gyflogaeth ar gyfer eich cyfnod sail cyfan oni bai eich bod eisoes wedi darparu'r wybodaeth hon ar Ffurflen Dreth y llynedd. Mae'n rhaid i chi gwblhau blychau 3.71 i 3.88 ar Dudalen SE3 bob amser, fel y bo'n briodol, er mwyn pennu eich elw trethadwy ar gyfer 1999-2000.

NEU

Os oes gennych fwy nag un set o gyfrifon ar gyfer y cyfnod sail ,cwblhewch flychau 3.1 i 3.70 a 3.93 i 3.109, fel y bo'n briodol, ar Dudalennau Hunan-gyflogaeth ar wahân ar gyfer pob set o gyfrifon. Nid oes angen i chi ailadrodd unrhyw wybodaeth am unrhyw gyfnod cyfrifo a ddarparwyd gennych ar Ffurflen Dreth y llynedd. Yna cwblhewch flychau 3.71 i 3.92, a blwch 3.120 fel y bo'n briodol, ar y Tudalennau Hunan-gyflogaeth ar gyfer y set ddiweddaraf o gyfrifon er mwyn pennu eich elw trethadwy ar gyfer 1999-2000.

Bydd y Nodiadau yn eich helpu. Maent yn defnyddio rhai termau technegol fel 'masnach', 'cyfnod sail' ac yn y blaen. Maent yn esbonio'r termau hyn gymaint â phosibl, ond nid ydynt yn ganllaw cynhwysfawr ar gyfer pob achos. Mae geirfa ar gael hefyd ar dudalen SEN11.

• Darparu manylion incwm a threuliau

Ar gyfer y rhan fwyaf o fusnesau, bydd y wybodaeth ar y Tudalennau Hunan-gyflogaeth yn galluogi i ddarlun llawn a theg o'ch busnes gael ei gyflwyno. Os bydd angen ymhelaethu ar unrhyw bwyntiau eraill, dylech ddarparu manylion yn y blwch 'Gwybodaeth ychwanegol' ar Dudalen SE4. Nid oes angen i chi anfon eich cyfrifon ataf.

Mewn rhai busnesau mwy neu fusnesau mwy cymhleth efallai na fydd gwybodaeth ychwanegol a roddir ar y Tudalennau Hunan-gyflogaeth yn ddigon i ddarparu darlun llawn a theg o'ch busnes. Gallech ystyried cyflwyno gwybodaeth bellach, gan gynnwys efallai gyfrifon neu gyfrifiadau ategol sy'n angenrheidiol. Gall hyn fod yn wir

- pan fydd gan fusnes mawr drosiant sylweddol, **neu**
- pan fydd busnes yn gymhleth (efallai am ei fod yn fasnach arbenigol iawn), **neu**
- pan fydd angen cyfrifon neu gyfrifiannau er mwyn deall y ffigurau yn gywir.

Ond mae'n rhaid i chi gwblhau Tudalen SE2 hefyd os yw eich trosiant blynyddol yn £15,000 neu fwy, a Thudalen SE4 os oes gennych fantolen.

Os nad oes gennych gyfrifon

Hyd yn oed os na pharatoir cyfrifon gennych ar gyfer eich busnes bob blwyddyn, dylai eich elw trethadwy gael ei weithio allan drwy ddefnyddio egwyddorion cyfrifo a dderbynnir yn gyffredinol. Bydd y Nodiadau hyn yn helpu. Am fwy o gyngor ar sut y trethir eich elw, beth i'w gynnwys yn eich trosiant a pha dreuliau sy'n ganiatáol ar gyfer treth, gofynnwch i'r Llinell Archebu am *Daflen Gymorth IR222: How to calculate your taxable profits.*

Byddwch yn dod ar draws y termau '**cyfnod cyfrifo**' a '**dyddiad cyfrifo**' yn y Nodiadau hyn ac yn y Taflenni Cymorth. Os nad oes gennych gyfrifon wedi'u paratoi ar gyfer eich busnes dylech ddarllen:

- '**cyfnod cyfrifo**' i olygu'r cyfnod rydych yn darparu manylion am eich incwm a threuliau busnes ar ei gyfer, **a**
- '**dyddiad cyfrifo**' i olygu'r dyddiad y daw'r cyfnod hwnnw i ben.

Os oes gennych gyfrifon

Paratoir cyfrifon am amrywiaeth o resymau ac mewn amrywiaeth o ffyrdd ac efallai na fydd yn amlwg ar unwaith ble yn eich Tudalennau Hunan-gyflogaeth y dylech nodi rhai o'ch ffigurau. Mae *Taflen Gymorth IR229: Information from your accounts* yn rhoi cymorth ymarferol ar gwblhau'r Tudalennau Hunan-gyflogaeth, gan gynnwys rhai enghreifftiau gwaith.

Mewn rhai sefyllfaoedd efallai y bydd angen i chi gyfuno neu ddosbarthu eich ffigurau i gydweddu â'r fformat safonol. Efallai bod mwy nag un ffordd dderbyniol o wneud hyn. Pa bynnag ddull a fabwysiadwch, dylech fod yn gyson o un flwyddyn i'r nesaf. Os ydych am esbonio unrhyw ffigurau yn fanylach, gwnewch hynny yn y blwch 'Gwybodaeth ychwanegol' ar Dudalen SE4 o'r Tudalennau Hunan-gyflogaeth.

Gwnewch yn siwr eich bod yn trosglwyddo pob swm yn eich cyfrifon, a'ch bod yn eu cynnwys unwaith yn unig. Peidiwch â chynnwys unrhyw symiau na chawsant eu cynnwys yn eich cyfrifon oni bai bod eu hangen i gyfrifo eich elw trethadwy neu os cawsant eu heithrio ar gam o'ch cyfrifon. Dylech gynnwys unrhyw symiau o'r fath ym mlwch 3.87. Eglurwch pam fod y swm yn angenrheidiol yn y blwch 'Gwybodaeth ychwanegol' ar Dudalen SE4.

Newid rhwng hunan-gyflogaeth a phartneriaeth

Fel arfer bydd angen i chi gwblhau'r Tudalennau Partneriaeth os oeddech yn bartner yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 5 Ebrill 2000 a'r Tudalennau Hunan-gyflogaeth os oeddech yn hunan-gyflogedig yn ystod y cyfnod hwnnw. Os cyflawnwyd yr un busnes gennych yn ystod y flwyddyn, ond gwnaethoch hynny fel unig fasnachwr am ran o'r flwyddyn ac mewn partneriaeth am ran arall, dilynwch yr arweiniad isod.

Cam 1 Os bydd eich cyfnod sail yn cwmpasu cyfnod pan gyflawnwyd busnes gennych fel unig fasnachwr, dylech gwblhau'r Tudalennau Hunan-gyflogaeth yn y ffordd arferol. Peidiwch â chwblhau'r Tudalennau Partneriaeth.

Cam 2 Os bydd eich cyfnod sail yn cynnwys cyfnod pan gyflawnwyd busnes gennych mewn partneriaeth, cwblhewch flychau 4.1 i 4.25 ar y Tudalennau Partneriaeth er mwyn pennu eich elw trethadwy neu golled ganiatáol o'r busnes am y flwyddyn hon.

Cam 3 Cwblhewch flychau 3.11 i 3.70 a 3.93 i 3.109 ar y **Tudalennau Hunan-gyflogaeth** ar gyfer unrhyw gyfnodau cyfrifo sy'n cwmpasu rhan o'ch cyfnod sail ac unrhyw gyfnod pan gyflawnwyd busnes gennych fel unig fasnachwr. Os gwnaethoch gynnwys y wybodaeth hon ar Ffurflen Dreth y llynedd, ni fydd angen i chi ei hailadrodd eleni. (Peidiwch â thrin dyddiad y newid o unig fasnachwr i bartneriaeth, neu o bartneriaeth i unig fasnachwr, fel un sydd angen ei nodi naill ai ym mlwch 3.9 neu ym mlwch 3.10 ar y Tudalennau Hunan-gyflogaeth.) Ond os ydych wedi cwblhau blychau 4.1 i 4.25 ar y Tudalennau Partneriaeth, gadewch flychau 3.71 i 3.91 yn wag a thiciwch flwch 3.5A.

- Ffigurau dros dro

Buaswn fel arfer yn disgwyl i chi gwblhau'r adran incwm a threuliau yn eich Tudalennau Hunan-gyflogaeth gyda'r ffigurau incwm a threuliau terfynol a chywir. Os na allwch wneud hynny er gwaethaf eich ymdrechion gorau, darllenwch y nodiadau ar dudalen 27 eich Canllaw i Ffurflenni Treth sy'n egluro'r amgylchiadau eithriadol y gellir derbyn Ffurflenni sy'n cynnwys ffigurau dros dro.

Os bydd yn wirioneddol amhosibl darparu gwybodaeth derfynol neu hyd yn oed wybodaeth dros dro am gyfrifon y cyfrifir eich elw trethadwy ohonynt cyn y dyddiad diweddaraf ar gyfer anfon eich Ffurflen Dreth, dylech ddarparu amcangyfrif o'ch elw trethadwy ym mlwch 3.88 a thicio blwch 3.72A. Buasem yn disgwyl i amgylchiadau o'r fath fod yn brin iawn. Yr un amgylchiad cyffredin fyddai, yn achos busnes sydd newydd ddechrau, pan na fyddai'r cyfnod cyfrifo cyntaf yn dod i ben tan yn agos at, neu ar ôl, y dyddiad cwblhau statudol. Mae 'agos at' yn golygu o fewn 2 mis o'r dyddiad cwblhau.

Os byddwch wedi amcangyfrif eich elw trethadwy neu wedi cynnwys un neu fwy o ffigurau dros dro ticiwch flwch 22.3 ar dudalen 8 eich Ffurflen Dreth, ac eglurwch yn y blwch 'Gwybodaeth ychwanegol' pam na allwch ddarparu ffigurau terfynol. Rhowch ddyddiad pan fyddwch yn disgwyl gallu gwneud hynny.

- Amcangyfrifon eraill (gan gynnwys prisiadau)

Mewn rhai sefyllfaoedd efallai y bydd angen i chi ddarparu amcangyfrif neu brisiad nad ydych yn bwriadu ei ddiwygio yn ddiweddarach. Os felly, darllenwch y nodiadau ar dudalen 27 eich Canllaw i Ffurflenni Treth.

Manylion busnes

- Eich cyfnod sail ar gyfer 1999-2000

Rydych yn talu treth ar gyfer 1999-2000 yn ôl elw, neu golledion, ar gyfer eich cyfnod sail.

Ar ôl y ddwy neu dair blynedd gyntaf mewn busnes eich cyfnod sail fydd y cyfnod o 12 mis hyd at y dyddiad a ddewiswch fel eich dyddiad cyfrifo blynyddol. Er enghraifft, os ydych wedi bod mewn busnes am nifer o flynyddoedd a 31 Rhagfyr yw eich dyddiad cyfrifo blynyddol, eich cyfnod sail ar gyfer 1999-2000 fydd y 12 mis o 1 Ionawr 1999 i 31 Rhagfyr 1999.

Gofynnwch i'r Llinell Archebu am Daflen Gymorth *IR222: How to calculate your taxable profits:*

- os dechreuodd eich busnes ar ôl 5 Ebrill 1996
- os nad yw eich dyddiad cyfrifo yr un peth â'r un a ddefnyddiwyd ym 1998-99
- os nad oedd gennych ddyddiad cyfrifo ym 1999-2000
- os daeth eich busnes i ben ym 1999-2000.

blychau 3.1 i 3.3 Gwnewch yn siwr eich bod yn cwblhau'r blychau hyn ar gyfer pob set o Dudalennau Hunan-gyflogaeth a gwblhewch.

blychau 3.4 a 3.5 Nodwch ym mlychau 3.4 a 3.5 fanylion y cyfnod y mae'r wybodaeth ym mlychau 3.11 i 3.13, neu 3.14 i 3.60, a lle mae gennych fantolen, 3.93 i 3.109, yn berthnasol iddo. Gwnewch yn siwr eich bod wedi darllen yr adran o dan y pennawd 'Eich cyfnod sail ar gyfer 1999-2000' uchod cyn parhau. Gweithiwch allan eich cyfnod sail er mwyn penderfynu ar y cyfnodau cyfrifo y mae angen i chi ddarparu manylion ar eu cyfer.

blwch 3.5A Ticiwch flwch 3.5A os nad yw'n ofynnol i chi ddarparu manylion unrhyw un o'ch cyfrifon eleni. Gadewch flychau 3.11 i 3.70 a 3.93 i 3.109 yn wag ond cwblhewch flychau 3.71 i 3.92, a blwch 3.120.

blwch 3.6 Ticiwch flwch 3.6 os yw'r manylion ym mlychau 3.1 a 3.3 wedi newid ers eich Ffurflen Dreth ddiwethaf.

blwch 3.7 Ticiwch flwch 3.7 os oes bwlch rhwng diwedd eich cyfnod cyfrifo blaenorol a dechrau'r un presennol. Esboniwch pam yn y blwch 'Gwybodaeth ychwanegol' ar Dudalen SE1.

blwch 3.8A a 3.8B Ticiwch flwch 3.8A os bydd eich dyddiad cyfrifo wedi newid ac mae hwn yn newid parhaol rydych yn dymuno iddo gyfrif ar gyfer treth. Ticiwch flwch 3.8B (yn ogystal â blwch 3.8A) os mai hwn yw'r ail newid neu newid pellach yn y dyddiad cyfrifo ers 5 Ebrill 1994 (neu ers 5 Ebrill 1996 os cychwynnwyd y busnes cyn 6 Ebrill 1994) gan egluro pam y gwnaed y newid hwn yn y blwch 'Gwybodaeth ychwanegol'. Mae gan *Daflen Gymorth IR222: How to calculate your taxable profits,* sydd ar gael o'r Llinell Archebu, ragor o wybodaeth.

blwch 3.9 Os dechreuodd eich busnes ar ôl 5 Ebrill 1996, nodwch y dyddiad cychwyn. Os yw eich dyddiad cyfrifo wedi newid ers hynny, gofynnwch i'r Llinell Archebu am *Daflen Gymorth IR222: How to calculate your taxable profits.*

blwch 3.10 Os gwerthwyd neu os caewyd eich busnes rhwng 6 Ebrill 1999 a 5 Ebrill 2000, nodwch y dyddiad y daeth i ben ym mlwch 3.10. Os nad yw hyn yr un peth â'r dyddiad ym mlwch 3.5 mae'n rhaid i chi gwblhau set arall o Dudalennau Hunan-gyflogaeth.

Incwm a threuliau - trosiant blynyddol o dan £15,000

Os yw eich trosiant blynyddol (ac eithrio unrhyw daliadau mantoli) o dan £15,000 am flwyddyn lawn, gallwch gwblhau'r adran incwm a threuliau arbennig, byrrach ar Dudalen SE1 (blychau 3.11 i 3.13) yn lle blychau 3.14 i 3.60 ar Dudalen SE2.

Ond mae'n rhaid i chi gwblhau'r naill adran neu'r llall, a chwblhau blychau 3.62 i 3.70 os oes gennych unrhyw daliadau mantoli, a blychau 3.61 i 3.69 os ydych yn gwneud cais am lwfansau cyfalaf.

blwch 3.11 Nodwch eich trosiant ac unrhyw dderbynebion busnes trethadwy eraill ym mlwch 3.11. Bydd angen i chi hefyd gynnwys bris gwerthu arferol yr holl nwyddau a gymerir allan o'r busnes at eich defnydd personol, neu ar gyfer eich teulu neu ffrindiau, *minws* unrhyw swm a dalasoch i mewn i'ch busnes ar gyfer y nwyddau a gymerwyd gennych. Mae hyn oherwydd dylai unrhyw swm a dalwyd i mewn i'r busnes fod wedi'i gynnwys eisoes yn y ffigwr trosiant, fel gwerthiannau eraill. Dylech gynnwys unrhyw daliadau mantoli (o flwch 3.70).

blwch 3.12 Nodwch eich treuliau busnes **caniataol** ym mlwch 3.12. Gwnewch yn siwr na chynhwyswch yn eich treuliau unrhyw eitemau nad ydynt yn ganiataol yn erbyn treth. (Bydd y Tabl ar dudalen SEN5 yn eich helpu i benderfynu.) Dylech gynnwys unrhyw daliadau mantoli (o flwch 3.69).

Incwm a threuliau - trosiant blynyddol o £15,000 neu fwy

Os yw eich trosiant blynyddol yn £15,000 neu fwy, mae'n rhaid i chi gwblhau blychau 3.14 i 3.57 ar Dudalen SE2.

- Treth Ar Werth

blychau 3.14 a 3.15 Os **nad** ydych wedi eich cofrestru ar gyfer TAW, ni fydd eich ffigurau gwerthiant yn cynnwys unrhyw TAW. Dylai'r treuliau ym mlychau 3.17 i 3.51 gynnwys TAW. Nid oes angen ticio naill ai flwch 3.14 neu 3.15.

Os ydych wedi'ch cofrestru ar gyfer y Cynllun Un-gyfradd Amaethyddol TAW, dylech gynnwys unrhyw ychwanegiadau un-gyfradd a godwyd ar gwsmeriaid yn eich ffigurau gwerthu. Dylai treuliau gynnwys TAW. Nid oes angen ticio naill ai flwch 3.14 neu flwch 3.15.

Os **ydych** wedi eich cofrestru ar gyfer TAW, gallwch nodi manylion eich incwm busnes a threuliau caniataol naill ai yn net o TAW neu'n cynnwys TAW. Pan fyddwch yn mabwysiadu'r ymagwedd olaf, yna dylai naill ai eich taliad net i Dollau Tramor a Chartref gael ei gynnwys fel cost ym mlwch 3.50, neu dylai unrhyw ad-daliad net a dderbyniwch gan y Tollau Tramor a Chartref gael ei gynnwys fel derbynneb drethadwy ym mlwch 3.37. Ticiwch naill ai flwch 3.14 neu flwch 3.15 er mwyn dangos a yw'r symiau ym mlychau 3.16 i 3.51 yn cynnwys neu ddim yn cynnwys TAW.

Os gwnaethoch gofrestru ar gyfer TAW yn ystod y cyfnod, dylai eich treuliau hyd at y dyddiad hwnnw gynnwys TAW waeth a gofnodwyd gwerthiannau a threuliau diweddarach gan gynnwys neu heb gynnwys TAW. Ticiwch flwch 3.14 a chofiwch gynnwys y manylion canlynol yn y blwch 'Gwybodaeth ychwanegol' ar dudalen SE4:

- nodyn eich bod wedi cofrestru ar gyfer TAW yn ystod y cyfnod
- dyddiad y cofrestriad
- a yw'r gwerthiannau a'r treuliau o'r dyddiad cofrestru yn cynnwys neu ddim yn cynnwys TAW

Bydd angen cymryd camau tebyg os cafodd eich cofrestriad TAW ei ddileu yn ystod y cyfnod, ac eithrio y dylai'r manylion sydd i ymddangos yn y blwch 'Gwybodaeth ychwanegol' gyfeirio at ddyddiad y datgofrestriad ac a yw'r gwerthiannau a'r treuliau cyn y dyddiad hwnnw yn cynnwys neu ddim yn cynnwys TAW. Dylai treuliau o'r dyddiad datgofrestru gynnwys TAW.

Os ydych wedi eich cofrestru ar gyfer TAW ac os yw'r nwyddau a gyflenwir gennych wedi'u trethu ar sero (fel nad yw eich ffigurau gwerthu yn cynnwys unrhyw TAW), ticiwch naill ai flwch 3.14 neu flwch 3.15 er mwyn dangos a yw'r symiau ym mlychau 3.17 i 3.51 yn cynnwys neu ddim yn cynnwys TAW.

Os ydych wedi eich cofrestru ar gyfer TAW, ond yn cael eich trin gan y Tollau Tramor a Chartref fel busnes a eithrir yn rhannol, at ddibenion cyfrifo eich elw trethadwy, mae gwariant busnes yn cynnwys unrhyw dreth fewnbwn na ellir gwneud cais amdani. Pan fyddwch yn cwblhau blychau 3.16 i 3.51 ar sail sy'n cynnwys TAW, bydd nodi eich taliad net i'r Tollau Tramor a Chartref neu ad-daliad ganddynt, ym mlychau 3.50 a 3.37, yn adlewyrchu hyn. Fodd bynnag, os cwblhewch y blychau ar sail nad yw'n cynnwys TAW, a fyddech cystal â sicrhau bod eich ffigurau treuliau yn cynnwys unrhyw dreth fewnbwn berthnasol na wnaed cais amdani at ddibenion TAW.

Gallai cyfrifo'r taliad net i'r Tollau Tramor a Chartref (neu ad-daliad ganddynt) fod wedi cynnwys TAW ar eitemau cyfalaf a brynwyd gennych yn ystod y flwyddyn; er enghraifft, ar asedion neu hawliau sydd o ddefnydd parhaol i'r busnes ac nad ydych yn eu prynu neu eu gwerthu fel rhan o'ch gweithrediadau masnachu arferol. Gallai'r rhain gynnwys eiddo busnes, offer, peiriannau, cerbydau a hawliau masnachu. Os nodwch fanylion eich incwm a'ch treuliau sy'n cynnwys TAW ar y Tudalennau Hunan-gyflogaeth, gwnewch nodyn o'r TAW ar yr eitemau cyfalaf hynny yn y blwch 'Gwybodaeth ychwanegol' ar Dudalen SE4. Adiwch y swm hwnnw i'r taliad net i'r Tollau Tramor a Chartref rydych yn ei gynnwys fel cost ym mlwch 3.50, neu yn ei ddidynnu o'r ad-daliad net rydych yn ei gynnwys fel derbynneb drethadwy ym mlwch 3.37.

Os oes unrhyw amheuaeth gennych ynglŷn â'r driniaeth TAW gywir ar y Tudalennau Hunan-gyflogaeth, gofynnwch i'ch Swyddfa Cyllid y Wlad neu ymgynghorydd treth. Cysylltwch â'ch Swyddfa Tollau Tramor a Chartref leol am arweiniad mwy cyffredinol ar faterion TAW.

- Incwm gwerthiant/busnes (trosiant)

blwch 3.16 Nodwch swm eich trosiant ym mlwch 3.16. Os yw'n cynnwys incwm y didynnwyd treth ohono (ac eithrio didyniadau a wnaed gan gontractwyr ar gyfrif treth) nodwch ym mlwch 3.120 gyfanswm y dreth a ddidynnwyd rhwng 6 Ebrill 1999 a 5 Ebrill 2000.

- Treuliau busnes

blychau 3.17 i 3.50 Dylech gynnwys eich holl dreuliau busnes ym mlychau 3.33 i 3.35 a 3.38 i 3.50.

Efallai na fydd rhai o'r symiau a nodwch ym mlychau 3.33 i 3.50 yn ganiataol at ddibenion treth. Nodwch unrhyw symiau anghaniataol ym mlychau 3.17 i 3.32 a'r cyfanswm ym mlwch 3.53.

Gall symiau anghaniataol fod yn dreuliau nad ydynt yn ganiataol o gwbl ar gyfer treth (fel treuliau adloniant dibrisiant asedion sefydlog) neu eich cyflog/tyniadau) neu'r rhan anghaniataol o dreuliau (fel treuliau moduro, os defnyddir eich cerbyd ar gyfer teithiau preifat yn ogystal â theithiau busnes).

Enghraifft 1
Roedd cyfanswm eich treuliau moduro a gynhwyswyd ym mlwch 3.42 yn £3,000 ac mae traean o'ch milltiroedd yn breifat. Gallwch ond gwneud cais am ddwy ran o dair o'r gost yn erbyn treth, hynny yw £2,000. Nodwch gyfran y defnydd preifat o £1,000 ym mlwch 3.24.

Gall rhai busnesau bach gyfrifo treuliau car drwy ddefnyddio cyfradd sefydlog y filltir busnes yn hytrach na chostau gwirioneddol. Mae'r manylion a'r amodau yn *Nhaflen Gymorth IR222: How to calculate your taxable profits*. Os gellir adennill unrhyw un o'r symiau ym mlychau 3.33 i 3.35 a 3.38 i 3.50 o dan yswiriant, dylech eu cynnwys yn y treuliau anghaniataol i'w nodi ym mlychau 3.17 i 3.32 oni bai eu bod eisoes ym mlwch 3.16 neu ym mlwch 3.37.

Defnyddiwch y Tabl ar dudalen SEN5. Mae'n rhoi gwybodaeth bellach am sut i gwblhau'r blychau.

parhad ar dudalen SEN6

Tabl o dreuliau busnes

Bydd y tabl canlynol yn eich helpu i benderfynu pa dreuliau busnes i'w cynnwys ym mlychau 3.33 i 3.50. Mae hefyd yn nodi rhai enghreifftiau o dreuliau na ellir gwneud cais amdanynt wrth weithio allan elw busnes at ddibenion treth.

Treuliau anghaniataol

- **Cost gwerthiant** — **blwch 3.17** Treuliau tanwydd y gellir eu priodoli i ddefnyddio cerbydau at ddibenion nad ydynt yn ymwneud â busnes.
- **Costau is-gontractiwr y diwydiant adeiladu** — **blwch 3.18** Unrhyw daliadau a wnaed mewn perthynas â gwaith nad yw'n ymwneud â busnes.
- **Costau uniongyrchol eraill** — **blwch 3.19** Dibrisiant offer sefydlog.
- **Costau gweithwyr** — **blwch 3.20** Eich cyflog chi eich hun a'ch tyniadau o'ch busnes. Eich taliadau pensiwn eich hun a buddiannau eraill. Eich Cyfraniadau Yswiriant Gwladol eich hun.
- **Costau eiddo** — **blwch 3.21** Y rhan honno o'r costau eiddo nad yw'n ymwneud â busnes a ddefnyddir yn rhannol at ddiben busnes. Costau caffael eiddo.
- **Gwaith atgyweirio** — **blwch 3.22** Y rhan honno o waith atgyweirio, adnewyddu a chynnal a chadw yr eiddo yn gyffredinol a ddefnyddir yn rhannol ar gyfer busnes. Costau newid, gwella neu adnewyddu eiddo a pheiriannau.
- **Treuliau gweinyddol cyffredinol** — **blwch 3.23** Y rhan honno o gostau nad yw'n ymwneud â busnes a ddefnyddir yn rhannol at ddiben busnes, taliadau i bleidiau gwleidyddol. Y rhan fwyaf o daliadau i glybiau, elusennau neu eglwysi.
- **Treuliau moduro** — **blwch 3.24** Moduro nad yw'n gysylltiedig â busnes. Teithio rhwng eich cartref a'ch busnes. Costau prynu cerbydau (ond gellir gwneud cais am lwfansau cyfalaf). Dirwyon parcio a dirwyon eraill.
- **Teithio a chynhaliaeth** — **blwch 3.25** Prydau bwyd (heblaw cost resymol prydau bwyd ar deithiau busnes dros nos).
- **Hysbysebu, hyrwyddo ac adloniant** — **blwch 3.26** Yr holl adloniant a lletygarwch, heblaw costau difyrru staff, a rhoddion (dim bwyd a diod) hyd at £10 y person y flwyddyn sy'n hysbysebu eich busnes.
- **Costau cyfreithiol a phroffesiynol** — **blwch 3.27** Costau datrys anghydfodau treth, costau cyfreithiol prynu asedion sefydlog (caiff y rhain eu trin fel rhan o gost yr ased sefydlog). Costau a dirwyon neu gosbau am dorri'r gyfraith.
- **Dyledion drwg** — **blwch 3.28** Cronfa gyffredinol dyledion drwg wrth gefn. Dyledion na chawsant eu trethu pan wnaethant godi, er enghraifft, am eu bod yn ymwneud â gwerthu ased sefydlog.
- **Llog** — **blwch 3.29** Ad-dalu'r benthyciad neu'r gorddrafft.
- **Taliadau ariannol eraill** — **blwch 3.30** Ad-dalu'r benthyciad neu'r gorddrafft.
- **Dibrisiant a cholled /(elw) wrth werthu** — **blwch 3.31** Yn gyffredinol, nid yw dibrisiant a cholledion ar asedion yn ganiatáol ar gyfer treth, ac nid yw elw ar asedion yn dderbynebion trethadwy. Dylai unrhyw ffigwr ym mlwch 3.49 gael ei ddileu drwy roi'r un ffigwr ym mlwch 3.31. Fodd bynnag, i'r graddau y gellir priodoli unrhyw un o'r eitemau hyn i asedion a ddelir o dan brydlesau ariannol, gall triniaeth wahanol fod yn briodol. Os oes unrhyw amheuaeth gennych ynglŷn â'r driniaeth gywir, gofynnwch i'ch Swyddfa Cyllid y Wlad neu'ch cynghorydd treth.
- **Treuliau eraill** — **blwch 3.32** Y rhan honno o dreuliau nad yw'n ymwneud â busnes ym mlwch 3.50. Dillad cyffredin, bob dydd, hyd yn oed os cawsant eu prynu yn arbennig at ddiben busnes.

Cyfanswm y treuliau

blwch 3.33 Os oedd eich busnes yn cynnwys ailwerthu neu ddefnyddio deunyddiau crai, nodwch yma gost y nwyddau a ddefnyddiwyd; hynny yw pryniannau ynghyd â stoc agoriadol/gwaith ar droed *minws* stoc cau/gwaith ar droed. Felly, er enghraifft, dylai **is-gontractwyr yn y diwydiant adeiladu** gynnwys yma gost unrhyw ddeunyddiau a gyflenwyd. A dylai **gyrwyr tacsis, gyrwyr minicab ac ati, a'r rheini sydd yn y diwydiant cludiant ffordd** nodi gwariant tanwydd yn y blwch hwn yn hytrach na rywle arall.

Mae busnesau sy'n darparu gwasanaethau yn addasu eu helw busnes i adlewyrchu gwaith ar droed ar ddechrau ac ar ddiwedd y cyfnod cyfrif. Os yw addasiad o'r math hwn yn briodol, gwnewch hynny yma; fel arall, gadewch y blwch yn wag. Os yw'r ffigwr yn negyddol, nodwch ef mewn cromfachau.

blwch 3.34 Dylech gynnwys yr holl daliadau i is-gontractwyr yn y diwydiant adeiladu. Nodwch y swm cyn didynnu treth os gwnaed unrhyw daliadau i is-gontractwyr heb dystysgrif.

blwch 3.35 Treuliau a ddidynnwyd er mwyn pennu elw gros, er enghraifft, gostyngiadau a ganiateir, comisiynau sy'n daladwy, cludiant ac, mewn busnesau gweithgynhyrchu, costau cynhyrchu nwyddau a werthir fel costau llafur uniongyrchol, dibrisiant offer sefydlog, hurio peiriannau, offer bach a nwyddau traul. Os bydd y busnes yn darparu gwasanaethau, gall orfod talu treuliau y gellir ailgodi tâl arnynt, a ddidynnir er mwyn pennu ffigwr elw gros.

blwch 3.38 Er enghraifft, cyflogau, bonws, pensiynau, budd-daliadau, Cyfraniadau YG y cyflogwr ac ati ar gyfer gweithwyr parhaol, dros dro ac achlysurol, a chostau eraill sy'n gysylltiedig â staff fel treuliau ffreutur a ffioedd asiantaeth recriwtio ac ati. Dylai unrhyw gostau llafur is-gontract, gan gynnwys ffioedd locwm, nas cynhwyswyd rywle arall, gael eu cynnwys yma. Dylech gynnwys yma eich holl gostau cyflogaeth, er enghraifft, eich cyflog, tyniadau neu Gyfraniadau Yswiriant Gwladol chi.

blwch 3.39 Er enghraifft, rhent, trethi busnes, trethi dŵr, golau, gwres, pŵer yswiriant eiddo, diogelwch a threuliau tebyg eraill. Os bydd cyfrifon yn cynnwys swm ar gyfer 'defnyddio cartref', dylech gynnwys y ffigwr hwnnw yma.

blwch 3.40 Er enghraifft, atgyweiriadau ac adnewyddiadau, gwaith cynnal a chadw cyffredinol eiddo a pheiriannau'r busnes.

blwch 3.41 Er enghraifft, ffôn, ffacs, post, papur swyddfa a chostau argraffu, gwasanaethau cludo, ynghyd â threuliau swyddfa cyffredinol, costau cyfnodolion masnach neu broffesiynol a thanysgrifiadau ac ati, costau yswiriant nas cynhwyswyd rywle arall a chostau rheolaidd tebyg eraill sy'n codi wrth redeg y busnes.

blwch 3.42 Er enghraifft, yswiriant, gwasanaethau, atgyweirio, Trwydded Cerbyd, petrol neu ddisl, taliadau hurio a phrydlesu, taliadau parcio, aelodaeth AA/RAC.

blwch 3.43 Er enghraifft, yr holl gostau teithio heblaw'r rheini a gynhwyswyd yn y treuliau moduro, fel prisiau rheilffordd, awyr a thacsi, ynghyd â chostau gwesty a chostau cynhaliaeth neu gostau tebyg.

blwch 3.44 Er enghraifft, costau cyffredin hysbysebu a hyrwyddo nwyddau neu wasanaethau'r busnes o ddydd i ddydd, fel hysbysebion papurau newydd, ymgyrchoedd drwy'r post a dosbarthu samplau o'r nwyddau sydd ar gael am ddim. Adloniant.

blwch 3.45 Er enghraifft, costau cyfrifydd, cyfreithiwr, syrfëwr, pensaer, y rheolwr stoc a chostau tebyg eraill, ynghyd â phremiymau yswiriant indemnedd proffesiynol a phethau tebyg.

blwch 3.46 Swm yr arian a gynhwyswyd mewn trosiant ond sy'n parhau heb ei dalu ar y dyddiad cyfrifo rydych yn ystyried na fydd byth yn cael ei adennill ac rydych wedi penderfynu ei ddileu eleni. Os ydych, yn annisgwyl, yn adennill y swm mewn blwyddyn ddiweddarach, gwnewch yn siwr eich bod yn ei gynnwys ym mlwch 3.37 yn Ffurflen Dreth y flwyddyn ddiweddarach honno.

blwch 3.47 Llog ar fenthyciadau banc a benthyciadau eraill (gan gynnwys gorddrafft).

blwch 3.48 Er enghraifft, taliadau banc, taliadau cerdyn credyd, llog hurbwrcas a thaliadau prydlesu, ynghyd â chostau tebyg eraill nas cynhwyswyd rywle arall.

blwch 3.49 Adiwch dibrisiant a cholledion ar werthu asedion, a didynnwch elw ar werthu asedion a gynhwysir yn eich cyfrifon, a nodwch y ffigwr o ganlyniad yn y blwch. Pan fydd yr elw o werthu ased yn fwy na chyfanswm unrhyw golledion ar ôl gwerthu a dibrisiant wedi'u hadio at ei gilydd, dangoswch ffigwr o'r fath mewn cromfachau. Dylai'r ffigwr mewn cromfachau gael ei ddidynnu pan fyddwch yn adio cyfanswm eich treuliau.

Os gwnaethoch elw o werthu asedion, dylech ystyried a oes angen i chi nodi ennill cyfalaf yn y Tudalennau Enillion Cyfalaf.

blwch 3.50 Adiwch yr holl dreuliau nas cynhwyswyd rywle arall a nodwch gyfanswm y ffigwr.

- Incwm/elw arall

blwch 3.37 Nodwch ym mlwch 3.37 unrhyw incwm busnes (heblaw Lwfans Cychwyn Busnes, a elwir weithiau yn Lwfans Menter, sy'n mynd ym mlwch 3.87) na chafodd ei gynnwys gennych fel trosiant ym mlwch 3.16. Gallai enghreifftiau gynnwys incwm rhentu, llog o gyfrif busnes banc neu gymdeithas adeiladu a hawliau tramwy. Os ydych yn cynnwys yr incwm hwn mewn lle gwahanol ar eich Ffurflen Dreth, gwnewch yn siwr eich bod yn ei ddidynnu ym mlwch 3.58. Er enghraifft, ni ddylai llog banc a gynhwyswyd ar dudalen 3 o'ch Ffurflen Dreth gael ei gynnwys yn yr elw neu'r golled busnes net a ddangosir ym mlwch 3.60.

- Gwybodaeth ychwanegol

Defnyddiwch y blychau 'Gwybodaeth ychwanegol' ar Dudalennau SE1 ac SE4 os ydych am esbonio unrhyw ffigurau yn fanylach. Er enghraifft:

- manylion unrhyw eitemau sylweddol neu anarferol (naill ai incwm neu wariant) a gynhwyswyd yn eich ffigurau, **neu**
- manylion derbynebion neu wariant sy'n gysylltiedig â'ch busnes na chawsant, am ryw reswm, eu cynnwys yn eich ffigurau, **neu**
- esboniad o unrhyw addasiad treth i'ch elw net pan nad yw'r rheswm yn amlwg o'r ffigurau hyn, **neu**
- esboniad o unrhyw eitemau na chawsant eu cynnwys yn eich gwybodaeth am gyfrifon, ond sy'n effeithio ar eich elw trethadwy, fel gwasgaru elw llenyddol, **neu**
- manylion unrhyw eitemau a roddwyd o dan Gynllun Cymorth Rhodd y Mileniwm, ac i ba elusennau. Rhoddir rhyddhad yn awtomatig wrth gyfrifo elw masnachu drwy drin rhoddion o'r fath megis gwarediadau o stoc ac offer fel dim heblaw gwerth arferol y farchnad.

Gallai hyn osgoi gwneud ymholiadau diangen. Mae cymorth pellach ar gael yn *Nhaflen Gymorth IR229: Information from your accounts.*

Addasiadau treth i elw neu golled net

Gweler yr adran ar awduron ac artistiaid ar dudalen SEN10 os ydych yn gwneud cais am 'daenu' elw 'yn ôl' neu 'ymlaen'.

blwch 3.53 Nodwch ym mlwch 3.53 gyfanswm y treuliau caniataol ym mlychau 3.17 i 3.32.

blwch 3.54 Dylech hefyd wneud addasiadau ar gyfer nwyddau a gymerwyd o'r busnes at eich defnydd personol neu ar gyfer eich teulu neu eich ffrindiau. Nodwch ym mlwch 3.54 bris gwerthu arferol yr holl nwyddau a gymerwyd ar gyfer defnydd o'r fath, *minws* unrhyw swm a dalwyd i mewn i'ch busnes am y nwyddau ac rydych eisoes wedi'u cynnwys yn eich trosiant ym mlwch 3.16.

blwch 3.58 Defnyddiwch flwch 3.58 ar gyfer unrhyw addasiadau (didynnwch o elw neu adiwch at golled) ar gyfer unrhyw symiau a gafodd eu hystyried gennych wrth bennu eich elw neu'ch colled net, ond nad ydynt yn dderbynebion trethadwy nac yn drethadwy fel elw o'ch masnach neu'ch proffesiwn. Dylai unrhyw incwm trethadwy ym mlwch 3.58 gael ei gynnwys yn y rhan briodol o'ch Ffurflen Dreth.

Treth dramor

Os bydd eich incwm busnes yn cynnwys symiau a gafodd eu trethu dramor, efallai y gallwch wneud cais am gredyd yn erbyn eich bil treth yn y DG. Er mwyn gwneud hynny, dylech gwblhau'r Tudalennau Tramor. (Gofynnwch i'r Llinell Archebu am gopi os nad oes un gennych). Hon fel arfer fydd y ffordd fwyaf buddiol i wneud cais am ryddhad ar gyfer y dreth dramor a dalwyd.

Fodd bynnag, os na fyddwch am wneud cais am ryddhad credyd treth, gallech yn lle hynny ddidynnu'r dreth dramor wrth weithio eich elw neu'ch colled trethadwy allan. Nodwch ym mlwch 3.58 swm y dreth dramor a dalwyd ar yr incwm tramor a gynhwysir yn y Tudalennau Hunan-gyflogaeth. Cofiwch eithrio'r dreth hon o'r Tudalennau Tramor.

Os ydych yn gwneud cais am ryddhad gorgyffwrdd eleni am swm y gwnaethoch wneud cais am ryddhad credyd treth mewn blwyddyn gynharach, bydd angen i chi ofyn i'r Llinell Archebu am *Daflen Gymorth IR260: Overlap* os ydych am gyfrifo eich treth. Fel arall, nodwch fanylion y swm y gwnaed cais amdano yn y blwch 'Gwybodaeth ychwanegol'.

Lwfansau cyfalaf a thaliadau mantoli

blychau 3.61 i 3.70 Wrth weithio allan eich elw busnes ni ddylech ddidynnu:

- cost prynu, newid neu wella asedion sefydlog, **neu**
- dibrisiant neu unrhyw golledion sy'n codi pan fyddwch yn eu gwerthu.

Yn lle hynny, gallwch wneud cais am lwfansau treth a elwir yn lwfansau cyfalaf. Didynnir y rhain wrth weithio allan eich elw trethadwy a dylid eu cynnwys ym mlwch 3.57 (neu flwch 3.12).Gall addasiad, a elwir yn dâl mantoli, godi pan fyddwch yn gwerthu eitem, yn cael gwared ag eitem neu pan fyddwch yn rhoi'r gorau i'w defnyddio yn eich busnes. Caiff taliadau mantoli eu hadio at eich elw trethadwy a dylid eu cynnwys ym mlwch 3.55 (neu flwch 3.11).

Gallwch wneud cais am lwfansau cyfalaf ar gyfer cost:

- offer a pheiriannau megis cerbydau, cyfarpar, ysgolion, cyfrifiaduron a dodrefn busnes sy'n perthyn i chi. Peidiwch â gwneud cais am y pethau rydych yn eu prynu a'u gwerthu fel rhan o'ch busnes - dylid gwneud cais am y rhain fel treuliau busnes
- adeiladau busnes, adeiladau diwydiannol a rhai adeiladau eraill
- patentau, rhai mathau arbenigol o 'wybodaeth', ymchwil gwyddonol, echdynnu mwynau a threillio. Bydd eich ymgynghorydd treth yn gwneud cais am y rhain ar eich rhan, os byddant yn gymwys.

Os byddwch yn hurbrynu rhywbeth, gallwch wneud cais am lwfansau cyfalaf ar gost wreiddiol yr eitem; bydd y llog neu daliadau eraill yn cyfrif fel treuliau busnes a dylid eu didynnu ym mlwch 3.48.

Ni allwch wneud cais am unrhyw beth rydych wedi'i brynu yn unswydd at ddefnydd preifat, neu gost y tir hyd yn oed os caiff ei ddefnyddio ar gyfer eich busnes.

Dylech gwblhau blychau 3.61 i 3.70 **ym mhob** set o Dudalennau Hunan-gyflogaeth a gwblhewch. Dylech wneud hyn am fod angen cyfrifiadau lwfansau cyfalaf ar wahân ar gyfer pob un o'ch cyfnodau cyfrifo. Os na fyddwch yn sicr beth i'w gynnwys, gofynnwch i'r Llinell Archebu am *Daflen Gymorth IR222: How to calculate your taxable profits.*

Gallai'r enghraifft ar dudalen SEN7 eich helpu chi efallai (a cheir mwy o wybodaeth yn *Nhaflen Gymorth IR222).*

Enghraifft 1

1. Mae Joe yn dechrau mewn busnes fel ymgynghorydd cyfrifiaduron ar 1 Gorffennaf 1997. Mae'n penderfynu llunio ei gyfrifon hyd at 31 Rhagfyr bob blwyddyn. Mae ei gyfrifon cyntaf am y 6 mis hyd at 31 Rhagfyr 1997. Wrth ddechrau mewn busnes, mae'n prynu offer cyfrifiadurol am £2,000 a char Vauxhall am £6,000. Mae'r offer cyfrifiadurol yn mynd i'r 'gronfa car' (mae'n rhaid cadw ceir ar wahân). Mae hefyd yn trosglwyddo ei gar Renault i'r busnes. Pan gaiff ei drosglwyddo ei werth marchnad yw £4,000. Mae'n defnyddio'r Renault at ddefnydd preifat ac mae'n amcangyfrif bod 50% o'r defnydd at ddiben preifat. Mae'n rhaid i'r lwfansau cyfalaf ar y Renault gael eu cyfrifo ar wahân (i'r Vauxhall) oherwydd caiff ei ddefnyddio at ddefnydd preifat.
2. Y lwfansau cyfalaf a roddir bob blwyddyn yw lwfansau ar bapur (WDAs) oni bai fod lwfans blwyddyn gyntaf (FYA) ar gael. Cyfyngir y lwfansau ar bapur (WDAs) ar y Renault i ganiatáu ar gyfer y defnydd preifat ond y WDA llawn a ddidynnir wrth bennu'r gwerth ar bapur (WDV) i'w gario ymlaen.
3. Yn y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Rhagfyr 1999, mae Joe yn prynu cyfrifiadur ac argraffydd newydd am £6,250, ar 1 Mehefin 1999, ac yn gwerthu ei hen argraffydd am £100. Bydd y cyfrifiadur a'r argraffydd newydd yn gymwys ar gyfer lwfans a elwir yn lwfans blwyddyn gyntaf (FYA) ar gyfradd o 40%. Dim ond yn ystod y flwyddyn pan brynir ased y bydd lwfans blwyddyn gyntaf ar gael.
4. Mae Joe yn penderfynu ymddeol i Sbaen ac yn cau'r busnes ar 31 Gorffennaf 2000. Mae'n gwerthu'r offer cyfrifiadurol am £4,800. Mae'n cadw'r Vauxhall, y mae ei werth marchnad yn £2,000, ac yn sgrapio'r Renault. Gan fod y busnes wedi dod i ben nid oes unrhyw WDAs ond mae'n rhaid i dâl mantoli neu lwfans mantoli gael ei gyfrifo ar gyfer pob cronfa. Mae yna dâl mantoli os bydd y gwerth gwaredu yn fwy na'r WDV a ddygwyd ymlaen. Os bydd yn llai, bydd yna lwfans mantoli.

	Cronfa gyffredinol	Cronfa car	Renault	Lwfansau sy'n ddyledus
Cyfnod cyfrifo a ddaeth i ben 31 Rhagfyr 1997				
Ychwanegiadau	£2,000	£6,000	£4,000	
WDA @ 25% x 6/12	250	750	500 x 50% (defnydd preifat) = £250	£1,250
WDV a gariwyd ymlaen	1,750	5,250	3,500	
Cyfnod cyfrifo a ddaeth i ben 31 Rhagfyr 1998				
WDA @ 25%	438	1,313	875 x 50% (defnydd preifat) = £438	£2,189
	1,312	3,937	2,625	
Cyfnod cyfrifo a ddaeth i ben 31 Rhagfyr 1999				
Gwerthiannau	100			
gwariant sy'n gymwys ar gyfer WDA	1,212			
ychwanegiadau sy'n gymwys ar gyfer FYA	6,250			
WDA @ 25% o 1,212	303	985	656 x 50% (defnydd preifat) = £328	
FYA @ 40% o 6,250	2,500			£4,116
WDV a gariwyd ymlaen	4,659	2,952	1,969	
(1,212 *minws* 303 + 6,250 *minws* 2,500)				
Cyfnod cyfrifo a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2000				
Gwarediadau	4,800	2,000	dim	
tâl mantoli	141			
	(3,800 *minws* 3,409)			
lwfans mantoli		952	1,969 x 50% (defnydd preifat) = £985	£1,796
				(952 + 985 *minws* 141)

Addasiadau er mwyn pennu elw neu golled trethadwy

Dim ond unwaith y dylech gyfrifo eich elw neu golled trethadwy ar gyfer 1999-2000, hyd yn oed oes ydych yn darparu manylion mwy nag un set o gyfrifon am y flwyddyn hon. Defnyddiwch yr adran '**Addasiadau er mwyn pennu elw neu golled trethadwy**' yn y set o Dudalennau Hunan-gyflogaeth ar gyfer eich set ddiweddaraf o gyfrifon. Os gwnaethoch gyflawni'r busnes mewn partneriaeth yn ystod unrhyw ran o'ch cyfnod sail, peidiwch â chwblhau blychau 3.71 i 3.91 ar y Tudalennau Hunan-gyflogaeth, ond yn lle hynny cwblhewch flychau 4.1 i 4.25 ar y Tudalennau Partneriaeth.

blychau 3.71 a 3.72 Nodwch y dyddiadau y mae eich cyfnod sail ar gyfer 1999-2000 yn dechrau ac yn gorffen ym mlychau 3.71 a 3.72. Eglurir y cyfnod sail ar dudalen SEN3.

blwch 3.72A Os na fyddwch yn gallu cwblhau'r adran incwm a threuliau o'r Tudalennau hyn am ei fod yn amhosibl paratoi'r ffigurau er mwyn pennu eich elw trethadwy cyn y dyddiad olaf ar gyfer dychwelyd eich Ffurflen Dreth, ticiwch flwch 3.72A a darparwch amcangyfrif o'ch elw trethadwy ym mlwch 3.88. Darllenwch y nodiadau ar dudalen 27 eich Canllaw i Ffurflenni Treth ac yna ticiwch flwch 22.3 ar dudalen 8 eich Ffurflen Dreth, gan esbonio yn y blwch 'Gwybodaeth ychwanegol' pam na allwch ddarparu'r ffigurau terfynol. Rhowch ddyddiad pan fyddwch yn disgwyl y gallwch wneud hyn.

blwch 3.72B Os ydych yn ofalwr maeth neu'n ofalwr oedolion, neu os ydych yn cyflawni masnach neu alwedigaeth yn gyfan gwbl dramor efallai mai dim ond nifer gyfyngedig o flychau ar y Tudalennau Hunan-gyflogaeth y bydd angen i chi eu cwblhau. Darllenwch y nodiadau ar fasnachau penodol ac ati ar dudalen SEN10 er mwyn gweld a yw hyn yn gymwys i chi. Os ydyw, ticiwch flwch 3.72B i ddangos pam rydych wedi gadael rhai adrannau'n wag.

blychau 3.73 a 3.74 Copïwch eich elw neu'ch colled o flwch 3.13 neu flwch 3.60, p'un bynnag sy'n briodol, i flwch 3.73 (nodwch golled mewn cromfachau). Os byddwch wedi ticio blwch 3.5A, nodwch '0' ym mlwch 3.73 a chofiwch gynnwys swm priodol unrhyw elw a ddatganwyd y llynedd yn eich cofnod ym mlwch 3.74.

Os na fydd eich cyfnod sail yr un peth â'r cyfnod a gwmpaswyd gan eich cyfrifon, cyfrifwch yr elw neu'r golled o'r cyfnod sail drwy adio at ei gilydd a/neu rhannu'r elw neu'r colledion o'r cyfnodau y mae gennych gyfrifon ar eu cyfer. Nodwch ym mlwch 3.74 unrhyw swm y mae angen adio at, neu ddidynnu o'r ffigwr ym mlwch 3.73. Mae *Taflen Gymorth IR222: How to calculate your taxable profits* yn esbonio sut i gyfrifo'r addasiad.

Os bydd yr addasiad yn golygu bod yn rhaid i chi ddidynnu ffigwr ym mlwch 3.74, dangoswch y ffigwr mewn cromfachau a chofiwch ei dynnu wrth bennu cyfanswm eich elw trethadwy.

● Rhyddhad gorgyffwrdd

blychau 3.75 i 3.77

Elw a rhyddhad gorgyffwrdd

Os bydd eich dyddiad cyfrifo blynyddol yn ddyddiad heblaw 5 Ebrill yna gall gorgyffwrdd yn eich cyfnodau sail ddigwydd:

- yn y tair blynedd gyntaf ar ôl i'ch busnes ddechrau, **neu**
- mewn blwyddyn lle mae newid yn y cyfnod cyfrifo.

Efallai y gallwch wneud cais am ryddhad gorgyffwrdd ar gyfer yr elw (yr elw gorgyffwrdd) sy'n codi mewn unrhyw gyfnod gorgyffwrdd.

Gallai rhyddhad gorgyffwrdd fod yn ddyledus ar gyfer 1999-2000 os:

- gwnaethoch gau neu werthu eich busnes ym 1999-2000, **neu**
- newidiasoch eich dyddiad cyfrifo ym 1999-2000 ac mae eich cyfnod sail, fel y dangosir ym mlychau 3.71 a 3.72, yn fwy na 12 mis.

Nodwch ym mlwch 3.75 unrhyw elw gorgyffwrdd nas defnyddiwyd (gan gynnwys unrhyw elw gorgyffwrdd trosiannol nas defnyddiwyd) a ddygwyd ymlaen o 1998-99; ym mlwch 3.76 unrhyw elw gorgyffwrdd a ddefnyddiwyd ym 1999-2000; ac ym mlwch 3.77 unrhyw elw gorgyffwrdd nas defnyddiwyd a gariwyd ymlaen i 2000-2001.

Gofynnwch i'r Llinell Archebu am *Daflen Gymorth IR222: How to calculate your taxable profits* sy'n egluro sut i gyfrifo elw gorgyffwrdd a sut i wneud cais am ryddhad gorgyffwrdd.

blwch 3.78 Os ydych yn ffermwr neu'n arddwr masnachol, efallai y gallech wneud cais i gyfartalu elw dwy flynedd. Gofynnwch i'r Llinell Archebu am *Daflen Gymorth IR224: Farmers and market gardeners*, sy'n esbonio hyn. Swm yr addasiad i'w nodi yma yw'r swm y caiff yr elw am yr uchaf o'r ddwy flynedd ei ostwng gan y cais. Nid yw'r cofnod hwn yn newid swm unrhyw golled i'w chynnwys ym mlwch 3.80.

blwch 3.78A Os oes proffesiwn neu alwedigaeth gennych ac rydych wedi defnyddio sail 'arian parod' neu 'gonfensiynol' o'r blaen i gyfrifo eich elw, rhowch swm yr 'addasiad' a drethir eleni ym mlwch 3.78A a darllenwch y nodyn 'Proffesiynau a galwedigaethau ar sail 'arian parod' ar dudalen SEN10.

blychau 3.79 a 3.80 Os bydd blwch 3.73 a'r addasiadau ym mlychau 3.74 a 3.76 yn arwain at elw ac nid ydych wedi gwneud cais am gyfartalu ffermwyr (blwch 3.78) neu wedi gwneud addasiad arbennig ar gyfer y newid mewn cyfrifo ar gyfer proffesiynau neu alwedigaethau ar sail arian parod (blwch 3.78A), rhowch yr elw ym mlwch 3.79 a '0' ym mlwch 3.80. Os ydych wedi rhoi ffigwr naill ai ym mlwch 3.78 neu 3.78A, addaswch yr elw gan y swm hwnnw a rhowch y ffigwr canlyniadol ym mlwch 3.79 a '0' ym mlwch 3.80.

Os bydd blwch 3.73 a'r addasiadau ym mlychau 3.74 a 3.76 yn arwain at golled, rhowch y ffigwr hwn ym mlwch 3.80 a '0' ym mlwch 3.79, oni fyddwch wedi gwneud cais am gyfartalu ffermwyr (blwch 3.78) neu wedi gwneud addasiad arbennig ar gyfer y newid wrth gyfrifo ar gyfer proffesiynau a galwedigaethau ar sail arian parod (blwch 3.78A). Os ydych wedi rhoi ffigwr naill ai ym mlwch 3.78 neu 3.78A, rhowch y ffigwr hwn ym mlwch 3.79 (a'r golled ym mlwch 3.80.)

Os ydych wedi gwneud colled, efallai y gallech wneud cais am ryddhad treth ar gyfer eich colled. Os byddwch am gael gwybodaeth am golledion, gofynnwch i'r Llinell Archebu am *Daflen Gymorth IR227: Colledion*.

Terfynau amser: Mae'n rhaid i rai ceisiadau colled gael eu gwneud erbyn 31 Ionawr 2002. Dylech sicrhau bod unrhyw geisiadau yr hoffech eu gwneud yn cael eu gwneud o fewn y terfyn amser a nodwyd. Fel arfer, ni all ceisiadau hwyr gael eu derbyn.

blwch 3.81 Os hoffech wrthbwyso eich colled yn 1999-2000 yn erbyn incwm arall o 1999-2000, nodwch y swm rydych yn gwneud cais i'w wrthbwyso ym mlwch 3.81 (gweler hefyd *Daflen Gymorth IR227: Losses)*.

blwch 3.82 Os hoffech wrthbwyso colled 1999-2000 yn erbyn incwm o flwyddyn gynharach, nodwch swm y golled ym mlwch 3.82. Os ydych eisoes wedi gwneud cais i wrthbwyso'r golled hon, dylech ei chynnwys o hyd ym mlwch 3.82, a darparu manylion yn y blwch 'Gwybodaeth ychwanegol' ar Dudalen SE4.

blwch 3.83 Nodwch ym mlwch 3.83 unrhyw golledion a gafwyd ym 1999-2000 rydych yn gwneud cais i'w cario ymlaen yn erbyn elw diweddarach (pan drosglwyddir eich busnes wedi hynny i gwmni yn gyfnewid am gyfranddaliadau yn y cwmni hwnnw efallai y byddwch yn gallu gosod colledion nas defnyddiwyd ac a gariwyd ymlaen yn erbyn incwm o'r cwmni - gweler y nodyn ar gyfer blwch 15.11 ar dudalen 22 o'ch Canllaw i Ffurflenni Treth).

blychau 3.84 a 3.85 Nodwch ym mlwch 3.84 unrhyw golledion a gafwyd yn yr un busnes mewn blynyddoedd cynharach, rydych yn gwneud cais i'w cario ymlaen yn erbyn elw diweddarach, ac nad ydych eisoes wedi'u defnyddio.

Gallwch ddefnyddio'r golled honno i wrthbwyso unrhyw elw a ddangosir ym mlwch 3.79. Nodwch ym mlwch 3.85 y swm rydych yn ei ddidynnu hyd at y ffigwr ym mlwch 3.79.

blwch 3.87 Nodwch unrhyw symiau nas cynhwyswyd rywle arall yn y Tudalennau Hunan-gyflogaeth ond a dderbyniwyd yn y flwyddyn hyd at 5 Ebrill 2000 - ac sydd eu hangen er mwyn cyfrifo eich elw trethadwy, er enghraifft:

- Lwfans Cychwyn Busnes (a elwir weithiau yn Lwfans Menter)
- taliadau trethadwy'r Fargen Newydd
- premiymau gwrthdro - taliadau neu fuddiannau yw'r rhain a dderbynnir fel cymhelliad i brydlesu unrhyw eiddo heblaw eich prif breswylfan neu eich unig breswylfan. Os mai'r bwriad yw meddiannu'r eiddo ar brydles ar gyfer eich masnach, proffesiwn neu alwedigaeth, bydd y premiwm gwrthdro yn dderbynneb drethadwy o'ch busnes. Os oes unrhyw amheuaeth gennych ynglŷn â'r ffordd gywir o drethu premiwm gwrthdro, neu yn wir urnhyw dderbynneb, gofynnwch i'ch swyddfa Cyllid y Wlad neu'ch ymgynghorydd treth.

blwch 3.88 Nodwch gyfanswm blychau 3.86 a 3.87.

Cyfraniadau Yswiriant Gwladol

Fel arfer bydd pobl hunan-gyflogedig yn gyfrifol am dalu'r cyfraniadau Dosbarth 2 un-gyfradd a hwyrach y byddant yn agored i dalu'r cyfraniadau Dosbarth 4 sy'n gysylltiedig ag elw (gweler yr adran ar gyfraniadau Dosbarth 4). Mae cyfraniadau Dosbarth 2 yn rhoi'r hawl i gael budd-daliadau cyfrannol penodol gan gynnwys pensiwn ymddeol, lwfans mamolaeth a budd-dâl anallu ogrwydd. Caiff y budd ei golli efallai os na thelir cyfraniadau Dosbarth 2 neu os cânt eu talu'n hwyr. Os nad ydych eisoes wedi eich cofrestru fel person hunan-gyflogedig at ddibenion Cyfraniadau Yswiriant Gwladol gallwch gael rhagor o wybodaeth am dalu drwy ffonio'r Ganolfan Alw Gwasanaethau Hunan Gyflogaeth ar 0845 9154655, neu drwy ysgrifennu i Swyddfa Cyfraniadau Yswiriant Gwladol Cyllid y Wlad yn:

Self Employment Services,
Customer Account Section,
Longbenton,
NE98 1ZZ.

Gwnewch yn siwr fod eich rhif Yswiriant Gwladol gennych pan fyddwch yn ffonio'r Ganolfan Alw a'i gynnwys mewn unrhyw ohebiaeth â'r Gwasanaethau Hunan Gyflogaeth.

Cyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 4

Mae'n rhaid i bobl hunan-gyflogedig dalu cyfraniadau Dosbarth 4 ar elw o unrhyw fasnach, proffesiwn neu alwedigaeth oni bai eu bod 'wedi'u heithrio'. Mae'r cyfraniadau yn ganran o elw trethadwy ar gyfer y flwyddyn dreth rhwng y terfynau isaf (£7,530) ac uchaf (£26,000).

blwch 3.89 Cewch eich eithrio rhag talu cyfraniad Dosbarth 4 ar gyfer 1999-2000:

- os ydych yn ddyn 65 oed neu drosodd neu'n ferch 60 oed neu drosodd ar 6 Ebrill 1999 (mae hyn yn cynnwys person a oedd yn cael ei ben-blwydd ar 6 Ebrill 1999), **neu**
- os ydych o dan 16 oed ar 6 Ebrill 1999 os yw Swyddfa Cyfraniadau Yswiriant Gwladol Cyllid y Wlad wedi caniatáu 'eithriad' i chi (i wneud cais am eithriad gofynnwch am ffurflen CA2835U, sydd ar gael o Swyddfa Cyfraniadau Yswiriant Gwladol Cyllid y Wlad), **neu**
- os nad ydych yn preswylio yn y DG at ddibenion treth yn ystod 1999-2000 (cysylltwch â'ch Swyddfa Cyllid y Wlad neu ymgynghorydd treth os na wyddoch a yw hyn yn gymwys i chi).

Mae'n bosibl i rai pobl eraill gael eu heithrio o dalu cyfraniadau Dosbarth 4. Os bydd angen mwy o wybodaeth arnoch, cysylltwch â Swyddfa Cyfraniadau Yswiriant Gwladol Cyllid y Wlad. Os credwch y gallech gael eich eithrio am eich bod:

- yn ymddiriedolwr, **neu**
- yn blymiwr neu'n oruchwyliwr plymio,

dylech ofyn i'ch Swyddfa Cyllid y Wlad neu ymgynghorydd treth.

Weithiau, os byddai cyfraniadau Dosbarth 1 a Dosbarth 4 yn gallu bod yn ddyledus, efallai na fyddai cyfraniadau Dosbarth 4 yn daladwy. O dan yr amgylchiadau hyn gall Swyddfa Cyfraniadau Yswiriant Gwladol Cyllid y Wlad gytuno i 'ohirio' eich cyfraniadau Dosbarth 4 nes y gellir pennu eich cyfraniadau cyffredinol. Dim ond Swyddfa Cyfraniadau Yswiriant Gwladol Cyllid y Wlad all gytuno i ohirio. Mae taflen CA72, sydd ar gael o Swyddfa Cyfraniadau Yswiriant Gwladol Cyllid y Wlad, yn rhoi manylion pellach.

Os cewch eich eithrio neu os caiff eich cyfraniadau eu gohirio:

- ticiwch flwch 3.89, **a**
- gadewch flychau 3.90 a 3.91 yn wag, **ac**
- esboniwch yn y blwch 'Gwybodaeth ychwanegol' eich bod wedi eich eithrio neu bod eich cyfraniadau wedi'u gohirio, a rhowch y rheswm.

blychau 3.90 i 3.91 **Os oes gennych un busnes**, defnyddiwch y Daflen Waith isod i weithio allan eich ffigurau i fynd ym mlychau 3.90 a 3.91.

Os oes gennych fwy nag un busnes, peidiwch â defnyddio'r Daflen Waith. Yn lle hynny, gofynnwch i'r Llinell Archebu am *Daflen Gymorth IR220: More than one business.*

Taflen Waith ar gyfer Cyfraniadau YG Dosbarth 4 (un busnes yn unig)

Elw trethadwy ar gyfer 1999-2000	**A**	o flwch 3.88 £
Addasiadau i elw sy'n drethadwy i Gyfraniadau YG (gweler y nodiadau* isod)	**B**	copïwch i flwch 3.90 £
Elw ar gyfer Cyfraniadau YG	**C**	blwch A *minws* blwch B £
Terfyn eithrio	**D**	£ 7,530
Swm sy'n drethadwy (uchafswm £18,470 ym mlwch E)	**E**	blwch C *minws* blwch D £
Cyfraniadau YG Dosbarth 4 sy'n ddyledus (uchafswm £1,108 ym mlwch F)	**F**	blwch E x 6% £

Os **nad** ydych am gyfrifo eich treth, nid oes rhaid i chi gwblhau blwch F na chopïo'r ffigwr i flwch 3.91. Gwnaf hyn i chi.

* Ni chaiff **yr 'addasiad' ar sail arian parod** (gweler y nodyn ar 'Proffesiynau a galwedigaethau ar sail "arian parod"' ar dudalen SEN10) ei ystyried ar gyfer Cyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 4, felly ym mlwch B dylech ddidynnu swm yr 'addasiad' a drethir ym 1999-2000 ac a nodwyd gennych ym mlwch 3.7A.

* Gall **colledion masnachu** o'r busnes hwn o 1998-1999 a blynyddoedd cynharach na chawsant eu gosod yn erbyn elw sy'n drethadwy i Gyfraniadau YG Dosbarth 4, gael eu dwyn ymlaen a'u gosod yn erbyn elw Dosbarth 4 o'r un busnes ar gyfer 1999-2000. (Mae hyn am fod colledion sy'n ganiatáol ar gyfer treth yn cael eu trin hefyd fel colledion sy'n codi at ddibenion Cyfraniadau YG Dosbarth 4. Gellid eu caniatáu ar gyfer Dosbarth 4 yn yr un ffyrdd ag y caniateir colledion ar gyfer treth.)

* Gall **llog** gael ei ddidynnu wrth gyfrifo elw Dosbarth 4 os cafodd ei dalu at ddibenion eich busnes ond na chafodd ei ddidynnu wrth bennu eich elw trethadwy. Dylech gynnwys
- unrhyw log o'r fath o 1998-99 a blynyddoedd cynharach na chafodd ei osod yn erbyn elw Dosbarth 4 blaenorol
- unrhyw log o'r fath a dalwyd ym 1999-2000.

* Nid yw colledion sy'n deillio o Osodiadau Gwyliau wedi'u Dodrefnu yn ganiatáol at ddibenion Cyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 4.

Is-gontractwyr yn y diwydiant adeiladu

blwch 3.92 Os ydych yn is-gontractiwr yn y diwydiant adeiladu, efallai eich bod wedi derbyn rhai taliadau o dan Gynllun Didynnu Treth y Diwydiant Adeiladu. Os ydych, nodwch ym mlwch 3.92 gyfanswm y didyniadau a wnaed ar gyfrif treth o daliadau a wnaed i chi yn ystod y cyfnod 6 Ebrill 1999 i 5 Ebrill 2000.

Dylai'r didyniadau treth gael eu dangos ar SC60 hyd at 31 Gorffennaf 1999, ac ar CIS25au ar gyfer taliadau ar ôl y dyddiad hwnnw, y dylech fod wedi eu derbyn gan y contractwyr rydych wedi gweithio iddynt, **a dylai'r ffurflenni hyn gael eu hanfon gyda'ch Ffurflen Dreth**. Os nad ydych wedi derbyn SC60/CIS25, gofynnwch i'r contractwyr rydych wedi gweithio iddynt i'w darparu. Os na allwch gael SC60 neu CIS25, rhowch y manylion canlynol yn y blwch 'Gwybodaeth ychwanegol' ar Dudalen SE4:

- enw a chyfeiriad y contractwr
- y mis y gwnaed y taliad(au) i chi
- swm y taliad gros
- swm y dreth a ddidynnwyd.

Os rhoddwyd CIS25 i chi am daliad(au) ar neu ar ôl 1 Awst 1999, ond rydych wedi colli eich copi, gofynnwch i'r contractwr am lungopi o'u copi o'r CIS25, ac anfonwch hwnnw gyda'ch Ffurflen Dreth.

Os ydych eisoes wedi gwneud cais am ad-daliadau o ddidyniadau SC60/CIS25 yn ystod y flwyddyn, dylech ddal i nodi cyfanswm y didyniadau SC60/CIS25 ar gyfer y flwyddyn ym mlwch 3.92 ac anfon unrhyw SC60/CIS25 sy'n ddyledus am y flwyddyn gyda'ch Ffurflen Dreth. Nodwch ym mlwch 17.1, ar dudalen 7 eich Ffurflen Dreth, swm unrhyw ad-daliad o ddidyniadau SC60/CIS25, neu unrhyw ddidyniadau SC60/CIS25 a osodwyd yn erbyn rhwymedigaethau eraill.

Crynodeb o'r fantolen

blychau 3.93 i 3.109 Os oes gennych gyfrifon, ac os ydynt yn cynnwys mantolen, copïwch y symiau i'r blychau priodol. Os nad oes gennych fantolen, neu os oedd eich trosiant yn llai na £15,000, gadewch y blychau hyn y wag.

Gwnewch yn siwr eich bod wedi trosglwyddo'r holl ffigurau i'r crynodeb, a bod pob un yn cael ei gynnwys **unwaith** yn unig. Peidiwch â chynnwys unrhyw ffigurau nad ydynt yn ymddangos yn eich mantolen.

Dylech arfer synnwyr cyffredin wrth drosglwyddo'r ffigurau o'ch cyfrifon i'r blychau mwyaf priodol. Yn dibynnu ar amgylchiadau eich busnes, gall rhai elfennau yn y fantolen ymddangos naill ai fel asedion neu fel rhwymedigaethau. Er enghraifft, bydd cyfrif banc gyda chronfeydd busnes ynddo yn ased tra y bydd cyfrif a orgodwyd yn rhwymedigaeth. Ar gyfer yr un cyntaf, nodwch y gweddill ym mlwch 3.97. Ar gyfer yr ail un, nodwch y gweddill ym mlwch 3.101.

Elfennau eraill y gellir effeithio arnynt yn y ffordd hon yn fwyaf cyffredin yw'r gweddillion Cyfrif Cyfalaf a'r elw neu'r golled net. **Pan fydd gweddill ar y Cyfrif Cyfalaf wedi'i orgodi, neu os gwnaeth y busnes golled net yn y flwyddyn, dylech nodi'r swm mewn cromfachau.**

Dylai ffigwr yr elw neu'r golled net sy'n ymddangos yn eich mantolen fod yr un peth â'r un a nodwyd ym mlwch 3.52 ar gyfer yr un cyfnod.

Dylai'r ffigwr ar gyfer asedion busnes net (blwch 3.104) fod yr un peth â'r ffigwr ar gyfer gweddill eich Cyfrif Cyfalaf ar ddiwedd y cyfnod (blwch 3.109).

Treth a ddidynnir o Incwm Masnachu

blychau 3.120 Nodwch ym mlwch 3.120 unrhyw dreth a ddidynnwyd o incwm masnachu (ac eithrio didyniadau a wnaed gan gontractwyr ar gyfrif treth) rhwng 6 Ebrill 1999 a 5 Ebrill 2000.

Ni ddylid cynnwys yma dreth a ddidynnwyd o dan TWE fel arfer (dylai gael ei chynnwys ar eich Tudalennau Cyflogaeth) ac os didynnwyd TWE o unrhyw incwm a gynhwyswyd yn eich ffigwr trosiant, dylech gysylltu â'ch swyddfa Cyllid y Wlad cyn cwblhau blwch 3.120.

Masnachau arbennig ac ati

Awduron ac artistiaid

Mae sawl math o ryddhad ar gael i awduron ac artistiaid a fydd yn darganfod efallai bod patrwm eu helw yn afreolaidd. Mae'r rhyddhad hwn yn gwneud yr elw yn wastad drwy daenu derbynebion dros sawl blwyddyn. Bydd eich Swyddfa Cyllid y Wlad neu ymgynghorydd treth yn gallu darparu manylion.

Os gwnewch gais am 'daenu yn ôl', nodwch y gostyngiad yn eich elw am y flwyddyn hon ym mlwch 3.58, ticiwch flwch 22.5 ar dudalen 8 eich Ffurflen Dreth a rhowch fanylion yn y blwch 'Gwybodaeth ychwanegol' ar y dudalen honno o'r swm a daenwyd yn ôl i'r flwyddyn ddiwethaf ac, os yw'n briodol, i'r flwyddyn gynt.

Os gwnewch gais am 'daenu ymlaen' y symiau y gellir eu derbyn y flwyddyn hon, nodwch y gostyngiad yn eich elw ym mlwch 3.58. Dylai ychwanegiadau at eich elw ar gyfer y flwyddyn hon o ganlyniad i geisiadau taenu ymlaen a wnaed mewn blynyddoedd blaenorol gael eu gwneud ym mlwch 3.54. Rhowch fanylion yn y blwch 'Gwybodaeth ychwanegol' ar Dudalen SE4.

Ffermwyr a garddwyr masnachol

Bydd angen *Taflen Gymorth IR224: Farmers and market gardeners* arnoch o'r Llinell Archebu sy'n esbonio:

- y rheolau arbennig ar gyfer cyfartalu elw dros ddwy flynedd mewn rhai amgylchiadau
- y sail gyr ar gyfer cyfrifo elw y gall ffermwyr anifeiliaid cynhyrchu ei defnyddio
- lwfansau cyfalaf ar adeiladau a gweithfeydd amaethyddol.

Esbonnir y dulliau o brisio stoc fferm sy'n dderbyniol i Gyllid y Wlad yn *Nhaflen Gymorth IR232: Farm stock valuation.*

Gofalwyr maeth a gofalwyr oedolion

Os oes gennych drefniant gyda'ch Swyddfa Cyllid y Wlad ar gyfer cyfrifo eich elw trethadwy, cwblhewch y blychau canlynol yn y Tudalennau Hunan-gyflogaeth (gan adael y gweddill yn wag):

- blychau 3.1 i 3.10
- blwch 3.88 i ddangos eich elw
- blychau 3.89 i 3.91 ar gyfer eich Cyfraniadau YG Dosbarth 4,

oni bai fod eich Swyddfa Cyllid y Wlad wedi dweud fel arall wrthych.

Proffesiynau a galwedigaethau ar sail 'arian parod'

Os ydych yn cyflawni proffesiwn neu alwedigaeth efallai y byddwch wedi defnyddio sail 'arian parod' neu 'gonfensiynol' i gyfrifo eich elw y llynedd. Mae enghreifftiau yn cynnwys:

- cyflwyno derbynebion dim ond pan gânt eu derbyn, a/neu dreuliau dim ond pan gânt eu talu, fel nad oes unrhyw ddyledwyr a/neu gredydwyr
- cyflwyno derbynebion dim ond pan fydd biliau wedi eu cyhoeddi, yn hytrach na phan fydd y gwaith wedi'i gwblhau
- peidio â chyflwyno unrhyw beth oherwydd gwaith ar y gweill.

Os byddwch wedi cyfrifo eich elw fel hyn y llynedd yna gallwch ddefnyddio'r un dull eleni, ond (ar wahân i fargyfreithwyr ac eiriolwyr penodol, gweler tudalen SEN11):

- dyma'r flwyddyn olaf y gallwch wneud hynny, **a**
- bydd yn rhaid i chi weithio 'addasiad' arbennig allan eleni a gaiff ei drethu (os bydd yn gadarnhaol) fesul rhandaliadau ar gyfer eleni a'r naw mlynedd ddilynol (ni fydd yn rhaid i chi wneud hyn os daw eich unig gyfnod cyfrifo eleni i ben ar 5 Ebrill 2000).

Mae *Taflen Gymorth IR233: The 'true and fair view' for professions and the 'adjustment' on withdrawal of cash bais* yn dweud rhagor wrthych am sail y farn wir a theg y mae'n rhaid i chi ei ddefnyddio i weithio eich elw am y blynyddoedd i ddod allan. Bydd angen i chi ddeall y sail hon er mwyn gweithio'r addasiad allan. Mae'n dweud wrthych sut i weithio'r addasiad allan a'r swm a drethir am y flwyddyn hon.

Unwaith y byddwch wedi gweithio'r ffigurau hyn allan:

- os yw'r addasiad yn gadarnhaol, rhowch y swm a drethir eleni ym mlwch 3.78A
- os yw'r addasiad yn negyddol, dylech gynnwys y swm cyfan fel rhan o 'dreuliau eraill' ym mlwch 3.50. Os yw'r addasiad yn negyddol, ni chaiff unrhyw effaith ar flynyddoedd i ddod.

Bargyfreithwyr ac eiriolwyr ym mlynyddoedd cyntaf eu galwedigaeth

Os ydych yn fargyfreithiwr (eiriolwr yn yr Alban) sy'n dechrau ymarfer y gyfraith gallwch weithio eich elw allan ar sail arian parod, neu ar sail y nodiadau ffioedd a gyflwynwyd. Pa sail bynnag a ddewiswch mae'n rhaid i chi lynu ati nes y byddwch yn newid i sail 'barn wir a theg'. Gallwch barhau i ddefnyddio sail o'r fath ar gyfer unrhyw gyfnod cyfrifo sy'n dod i ben **erbyn saith mlynedd wedi'r dyddiad y dechreuasoch ymarfer y gyfraith fan bellaf**. Y dyddiad rydych yn dechrau ymarfer y gyfraith yw'r dyddiad rydych yn cynnig eich hun gyntaf ar gyfer gwaith sy'n ennill ffi. Unwaith y byddwch wedi dechrau ymarfer y gyfraith bydd y cyfnod o saith mlynedd yn parhau hyd yn oed os cymerwch seibiant rhag ymarfer.

Ar ddiwedd y cyfnod cyfrifo diwethaf pan fydd gennych yr hawl i ddefnyddio sail arian parod neu sail nodiadau ffi a gyflwynwyd mae'n rhaid i chi weithio'r 'addasiad' allan fel y disgrifiwyd uchod. Mae'n rhaid i'ch elw ar gyfer yr holl gyfnodau dilynol gael eu gweithio allan ar sail 'barn wir a theg'.

Ceir rhagor o wybodaeth am drethiant bargyfreithwyr ac eiriolwyr mewn nodiadau arweiniad a gyhoeddwyd gan Gyngor Bar Cymru a Lloegr, Cyfadran yr Eiriolwyr a Llyfrgell Bar Gogledd Iwerddon.

Masnachau a galwedigaethau a gyflawnir yn gyfan gwbl dramor

Os ydych yn cyflawni masnach neu alwedigaeth yn gyfan gwbl dramor bydd dal angen i chi gwblhau'r Tudalennau hyn. Ond mewn rhai amgylchiadau efallai mai dim ond ar daliadau a wnewch i'r DG y cewch eich trethu. Gofynnwch i'r Llinell Archebu am y Tudalennau Di-breswyl ac ati os credwch y gallai'r sail taliad fod yn gymwys i chi. Os bydd, dim ond y blychau canlynol y bydd angen i chi eu cwblhau, lle bo hynny'n briodol, ar y Tudalennau Hunan-gyflogaeth (gadewch y gweddill yn wag):

- blychau 3.1 i 3.10
- blychau 3.71 a 3.72 i ddangos eich cyfnod sail
- blwch 3.72B
- blwch 3.88, **a**
- ticiwch flwch 3.89.

Os oeddech wedi talu treth dramor ar elw'r fasnach hon ac am wneud cais am gredyd yn erbyn eich rhwymedigaeth treth yn y DG, gofynnwch i'r Llinell Archebu am y Tudalennau Tramor.

Geirfa

Taliadau mantoli Codi peth neu'r cyfan o'r lwfansau cyfalaf a roddwyd yn flaenorol. Byddant yn codi pan fydd asedion sefydlog yn peidio â chael eu defnyddio yn eich busnes.

Cyfnod sail Y cyfnod a ddefnyddir i nodi'r elw trethadwy mewn unrhyw flwyddyn dreth arbennig.

Lwfansau cyfalaf Lwfansau yn erbyn treth ar gyfer cost rhai asedion sefydlog.

Lwfansau blwyddyn gyntaf Lwfans cyfalaf ar gyfradd uwch na'r lwfans arferol ar bapur yw'r lwfans blwyddyn gyntaf. Fe'i rhoddir ar gyfer blwyddyn pan gaiff ased ei gaffael a'i roi yn lle lwfans ar bapur.

Asedion sefydlog Asedion fel adeiladau, offer a pheiriannau, cerbydau ac ati a ddefnyddiwch yn y busnes ond nad ydych yn eu prynu a'u gwerthu fel rhan o'ch gweithrediadau masnachu cyffredin. Er enghraifft, os ydych yn blymwr, mae eich fan a'ch offer yn asedion sefydlog ond nid yw eich pibellau, boeleri ac ati (stoc yw'r rhain). Gelwir y gost o brynu asedion sefydlog yn wariant cyfalaf.

Elw gorgyffwrdd a rhyddhad gorgyffwrdd Mae elw gorgyffwrdd yn codi pan fydd y cyfnodau sail yn gorgyffwrdd fel bod yr un elw yn drethadwy mewn dwy flwyddyn dreth wahanol. Mae rhyddhad gorgyffwrdd yn didynnu'r elw gorgyffwrdd mewn blwyddyn dreth ddiweddarach fel nad ydych, dros fywyd eich busnes, yn talu treth ar fwy o elw nag yr enillwch.

Stoc Deunyddiau crai a ddefnyddir yn eich busnes a nwyddau a brynwyd i'w hailwerthu sydd gennych wrth law.

Masnach Mae unrhyw weithred fasnachol sy'n cyflenwi nwyddau neu wasanaethau i gwsmer ar gyfer elw yn debygol o gael ei ystyried fel masnach. Os oes unrhyw amheuaeth gennych a gyflawnwyd masnach, proffesiwn neu alwedigaeth gennych yn ystod 1999-2000, dylech ofyn i'ch Swyddfa Cyllid y Wlad neu ymgynghorydd treth.

Credydwyr treth Arian sydd arnoch i fusnesau am nwyddau neu wasanaethau a dderbynioch, ond sy'n parhau heb eu talu ar eich dyddiad cyfrifo.

Dyledwyr masnach Arian sy'n ddyledus i chi am nwyddau a werthwyd gennych neu waith a wnaethoch a gynhwyswyd mewn trosiant, ond sy'n parhau heb ei dalu ar y dyddiad cyfrifo.

Trosiant yw'r holl arian a enillwyd gan eich busnes cyn didynnu unrhyw dreuliau busnes. Mae'n cynnwys derbynebion mewn arian parod neu mewn da am nwyddau a werthwyd neu am waith a wnaed, comisiwn, ffioedd y gellir eu derbyn, cildwrn, enillion yswiriant ar gyfer stoc a cholledion elw ac ati. Ond nid yw'n cynnwys Lwfans Cychwyn Busnes (neu Lwfans Menter) y dylid ei gynnwys ar wahân ym mlwch 3.87. Hefyd, peidiwch â chynnwys symiau a dderbynioch wrth werthu eitemau cyfalaf, hynny yw, asedion sydd o ddefnydd parhaol i'r busnes, fel eiddo, offer, peiriannau a cherbydau'r busnes.

Dylai trosiant gael ei gynnwys yn eich cyfrifon pan gaiff ei ennill, hyd yn oed os na dderbyniwch yr arian tan yn ddiweddarach. Dylai symiau a enillwyd gennych ond nas derbyniwyd erbyn y dyddiad cyfrifo - eich dyledwyr masnach - gael eu cyfrif fel trosiant. Bydd hyn yn cynnwys nwyddau a ddosbarthwyd neu wasanaethau a gwblhawyd erbyn y dyddiad cyfrifo, hyd yn oed os nad oeddech wedi cyhoeddi bil erbyn hynny. Ond gwnewch yn siwr nad ydych yn cyfrif arian a dderbynioch a gafodd ei gynnwys fel trosiant mewn cyfnod cynharach pan gafodd ei ennill.

Gwaith ar droed Stoc a gynhyrchwyd yn rhannol sydd gennych wrth law, neu waith a gwblhawyd yn rhannol ar gontractau rydych yn darparu eich gwasanaeth oddi mewn iddynt.

Canllaw yn unig yw'r nodiadau hyn sy'n adlewyrchu'r sefyllfa ar adeg ysgrifennu. Nid ydynt yn effeithio ar unrhyw hawl i apelio.